# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mawrth 2024

Amser: 10.00 - 12.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13736

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>Gareth Baglow, Llywodraeth Cymru<br>Helen Kellaway, Llywodraeth Cymru<br>Caroline Matthews, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Sesiwn dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)459 – Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)463 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(6)460 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)461 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)454 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)455 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 5.3 SL(6)457 – Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd mewn cysylltiad â chyfarfodydd y canlynol:

- y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE,
- y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol,
- y Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, ac

y Grŵp Rhyngweinidogol ar Chwaraeon.

**6.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2024**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

**6.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

## 7 Papurau i'w nodi

**7.1 Gohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Economi: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Economi.

**7.2 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol: Craffu ar Fframweithiau Cyffredin**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a chytunodd i ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth.

### 7.4 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

### 7.5 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a chytunodd i ysgrifennu gyda rhagor o sylwadau.

### 7.6 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ofyn am ragor o wybodaeth.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Mawrth 2024

Cafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22, a chytunodd y Pwyllgor ar yr enwebiad. Etholodd y Pwyllgor Alun Davies AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Mawrth 2024.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 11 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd yn ffurfiol ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Llywydd, a llythyr ar y cyd oddi wrth elusennau tai a digartrefedd yng Nghymru.